Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Amserlen ddiwygiedig ar gyfer ystyried Cyllideb 2024-25

Hydref 2023

Ar 22 Mehefin 2023, ysgrifennodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd at y Pwyllgor Busnes i nodi dyddiadau arfaethedig ar gyfer cyhoeddi'r gyllideb ddrafft ar gyfer 2024-25, yn unol â Rheol Sefydlog 20.2.

Yn unol â Rheol Sefydlog 20.4, ymgynghorodd y Pwyllgor Busnes â'r Pwyllgor Cyllid. Oherwydd ansicrwydd ynghylch digwyddiad cyllidol disgwyliedig gan Lywodraeth y DU yn yr hydref, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar amserlen arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer trafod Cyllideb Ddrafft 2024-25. Wrth wneud hynny, nododd y Pwyllgor Busnes yr arwyddion a roddwyd gan Lywodraeth Cymru y gallai fod yn bosibl addasu'r amserlen, o dan Rheol Sefydlog 20.6, unwaith y bydd bwriadau Llywodraeth y DU yn gliriach.

Ar 12 Medi 2023, ysgrifennodd y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd at y Pwyllgor Busnes, o dan Reol Sefydlog 20.6, yn cynnig newidiadau i amserlen y Gyllideb oherwydd dyddiad Datganiad yr Hydref Llywodraeth y DU. Ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Cyllid, cytunodd y Pwyllgor Busnes ar yr amserlen ddiwygiedig (gweler isod) yn ei gyfarfod ar 3 Hydref 2023.

| | Dyddiad |
|---|---|
| Gosod cynigion amlinellol ar gyfer cyllideb y Llywodraeth | Erbyn 19 Rhagfyr 2023 |
| Gosod cynigion manwl ar gyfer cyllideb y Llywodraeth | Erbyn 19 Rhagfyr 2023 |
| Y dyddiad cau i'r Pwyllgor Cyllid gyflwyno adroddiad ar gynigion amlinellol cyllideb y Llywodraeth | 5 Chwefror 2024 |

| | |
|---|---|
| Y dyddiad cau i'r pwyllgorau eraill gwblhau eu hystyriaeth o'r cynigion manwl ar gyfer y gyllideb | 5 Chwefror 2024 |
| Cyflwyno cynnig blynyddol y gyllideb | 27 Chwefror 2024 |